# Arwain a datblygu ymarfer myfyriol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth ddatblygu eich ymarfer myfyriol ac wrth arwain ymarfer myfyriol pobl eraill. Mae'n golygu cysoni ymarfer â gweledigaeth, gwerthoedd a safonau proffesiynol y gweithle, ac arwain diwylliant o ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar sut mae eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn cyd-fynd â gweledigaeth, gwerthoedd a chanlyniadau'r gweithle
2. nodi safonau cyfredol ymarfer proffesiynol sy'n berthnasol i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau gwaith
3. gwerthuso eich arddull arwain, eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch ymarfer yn erbyn safonau ymarfer proffesiynol cyfredol
4. gofyn am adborth gan eraill ynghylch eich arweinyddiaeth a'ch ymarfer proffesiynol
5. datblygu eich sgiliau ymarfer myfyriol
6. myfyrio ar eich profiadau ymarfer a nodi’r hyn rydych chi wedi’i ddysgu o fyfyrio a sut i wella'r ffordd rydych chi'n gweithio.
7. dadansoddi a gwerthuso sut mae eich gwerthoedd, eich diwylliant a'ch rhagdybiaethau yn effeithio ar eraill
8. blaenoriaethu meysydd i'w datblygu, pennu deilliannau dysgu a chynllunio sut y bydd dysgu a datblygu yn cael eu cyflawni
9. nodi heriau i'ch dysgu a'ch datblygiad, a'u goresgyn
10. cydweithio ag eraill i rannu gwybodaeth a dysgu drwy rwydweithio
11. ymgymryd â gweithgareddau dysgu a datblygu a defnyddio dysgu newydd yn eich ymarfer
12. defnyddio prosesau goruchwylio ac arfarnu ar gyfer ymarfer myfyriol a datblygu dysgu a datblygu newydd
13. defnyddio prosesau goruchwylio ac arfarnu i fonitro a gwerthuso dysgu a datblygu newydd
14. arwain, monitro a rhoi adborth i eraill ar safonau ymarfer proffesiynol cyfredol
15. arwain ymarfer myfyriol a datblygu sgiliau myfyriol pobl eraill
16. defnyddio prosesau goruchwylio ac arfarnu i gefnogi pobl eraill i fyfyrio ar eu dysgu a'u datblygiad, ynghyd â'u datblygu
17. cefnogi eraill i wella eu rheolaeth emosiynol, eu gwydnwch a'u llesiant yn y gweithle
18. grymuso eraill i gynllunio a chael gafael ar adnoddau dysgu a datblygu unigol ac ar y cyd
19. sut i gefnogi eraill i fonitro, defnyddio a gwerthuso dysgu a datblygu newydd
20. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i nodi a goresgyn heriau i ddysgu a

datblygu

21. arwain y gwaith o rannu gwybodaeth ac arferion newydd
22. modelu, hybu ac arwain diwylliant o fyfyrio a datblygiad proffesiynol parhaus
23. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i arwain a datblygu ymarfer myfyriol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae ymarfer myfyriol yn gallu cefnogi gweledigaeth, gwerthoedd a chanlyniadau'r gweithle
2. rôl ymarfer myfyriol wrth arwain safonau ymarfer proffesiynol
3. pwysigrwydd defnyddio tystiolaeth, safonau ac adborth gan eraill i lywio ymarfer myfyriol
4. sut mae gwerthuso eich arddull arwain, eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch ymarfer yn erbyn safonau ymarfer proffesiynol cyfredol
5. sut mae gofyn am adborth gan unigolion ac eraill, a defnyddio hyn i ddatblygu ymarfer proffesiynol
6. sut mae defnyddio modelau myfyriol i ddatblygu eich sgiliau myfyrio a gwella'r ffordd rydych chi'n gweithio
7. egwyddorion ymarfer myfyriol a pham ei fod yn bwysig o ran gwella dysgu a datblygu
8. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn ymarfer myfyriol a dysgu a datblygu
9. sut mae myfyrio wrth weithredu a defnyddio profiadau dyddiol fel cyfleoedd dysgu
10. sut mae myfyrio ar brofiadau ymarfer blaenorol a defnyddio'r profiadau hyn fel cyfleoedd dysgu
11. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar ymarfer myfyriol
12. sut mae ymarfer myfyriol yn gallu gwella rheoleiddio emosiynol, gwydnwch a llesiant yn y gweithle
13. sut mae defnyddio cyflawniadau a heriau fel cyfleoedd dysgu a datblygu
14. strategaethau i oresgyn heriau i'ch dysgu a'ch datblygiad
15. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar arwain a datblygu ymarfer myfyriol a dysgu a datblygu
16. pwysigrwydd rhwydweithio wrth ddysgu a datblygu
17. gwahanol ddulliau dysgu a sut y mae modd dod o hyd iddynt a darparu adnoddau ar eu cyfer, gan ystyried cynaliadwyedd ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth
18. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol ar gyfer ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus
19. rôl prosesau goruchwylio ac arfarnu mewn ymarfer myfyriol a datblygiad

proffesiynol parhaus

20. sut mae cefnogi eraill i fonitro, defnyddio a gwerthuso dysgu a datblygu newydd
21. sut mae defnyddio technegau hyfforddi a mentora i gefnogi eraill wrth arwain a datblygu ymarfer myfyriol
22. cyfrifoldebau arwain ar gyfer ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus
23. sut mae modelu, arwain a hybu diwylliant o ddatblygiad proffesiynol parhaus a myfyrio
24. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ddatblygu ymarfer myfyriol
25. gofynion y gweithle o ran rheoli perfformiad
26. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i arwain a datblygu ymarfer myfyriol
27. theorïau sy’n berthnasol i arwain a datblygu ymarfer myfyriol
28. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain a datblygu ymarfer myfyriol
29. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain a datblygu ymarfer myfyriol
30. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain a datblygu ymarfer myfyriol, a sut i fynd i'r afael â hyn

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD43

Arwain a datblygu ymarfer myfyriol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD43 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Arwain, Datblygu, Ymarfer Myfyriol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |